

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Fferm Newton

Awgrymiadau da ar gyfer
cael elw o wartheg biff magu

Academi Amaeth

Cyfnod ymgeisio 2019
ar agor

**ROSS EDWARDS**

Fferm New Dairy, Casnewydd, Gwent
Safle Ffocws Cyswllt Ffermio

Roedd 2018 yn flwyddyn heriol, a thrwy'r Deyrnas Unedig i gyd, effeithiodd y sychder ar ansawdd a swmp y porthiant. Diolch i'r drefn, llwyddodd rhai ffermydd, gan gynnwys ein un ni yn New Dairy, Casnewydd, i gael peth porthiant yn ystod misoedd olaf yr haf a dechrau'r hydref y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom hefyd gyfyngu ar ein colledion trwy dreialu system aml-doriad a gynhyrchodd silwair o ansawdd da yn ystod y tymor.

Torrwyd y toriad Laf mewn 2 brif doriad ar y fferm. Ar 20 Ebrill, torrwyd dros 194 erw; cynhyrchodd hyn 570 tonn oedd yn gyfartaledd o 2.93 tonn yr erw. Torrwyd y toriad Laf arall ar 15 Mai, gyda dros 269 erw yn cynhyrchu 950 tonn ar gyfartaledd o 3.54 tonn yr erw.

Yn ystod y prosiect safle ffocws Cyswllt Ffermio, bu'n rhaid i'n mentor ac ymgynghorydd wneud addasiadau i'r system ar hyd y ffordd. Gostyngodd lefelau lleithder y pridd yn gynnwys yn yr haf yn sylweddol, ac oherwydd y tywydd eithafol, roedd ail-dyfiant y glaswellt yn wael. Gwnaed y penderfyniad i roi'r 3ydd toriad mewn byrnau ar y tir trwm i osgoi costau cynaeafu. Llwyddodd y fferm i gael 4ydd a 5ed toriad yn Awst a Medi yn dilyn y glaw a gafwyd.

Roeddem yn falch iawn o'r dadansoddiad silwair o'r silwair aml-doriad Laf ac mae perfformiad y buchod yn gynnwys yn y gaeaf wedi adlewyrchu ei ansawdd.

- Gwerth treuliadwy (Gwerth D) 72
- Egni y gellir ei fetaboleiddio (ME) 11.6
- Protein crai (CP) 16.7
- Cynnwys sych (DM) 41.8

Ar ôl porthi'r silwair toriad Laf, gwellodd y cynnyrch llaeth o 30 litr y fuwch y dydd i 32 litr y fuwch y dydd pan gafodd ei gyflwyno ar ddechrau Mehefin yn y grŵp uchel. Yn ychwanegol, mae cyfansoddiad y tail, cyflwr eu cyrff a ffrwythlondeb i gyd wedi gwella. Oherwydd ansawdd da'r silwair, rydym wedi gallu arbed ar gostau porthiant trwy ostwng faint o ategolion sydd yn y dogn. Er nad yw'r system yn addas i bob fferm efallai, rydym wedi gweld rhai manteision gwirioneddol trwy'r dull aml-doriad yma yn New Dairy. Dangosodd y prosiect, hyd yn hyn, welliannau ariannol ac o ran cynnyrch o gael mwy o laeth o borthiant a gwneud y defnydd gorau o borthiant wedi ei dyfu gartref.

DOSBARTHIADAU MEISTR

Ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am bynciau technegol allweddol yn ymwneud â ffermio, i gynyddu eich dealltwriaeth a gwella perfformiad eich fferm?

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu cyfres o Ddosbarthiadau Meistr, sef gweithdai lefel uchel sy'n darparu gwybodaeth a chyngor technegol fel grŵp.

Dosbarth Meistr	Dyddiad	Lleoliad	Cyswllt
Master ar Bridd	26-27/3/19	Llysfasi, Rhuthun	Rhys Davies - 01745 770 037 / 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk
Meistr ar Gloffni	25-26/4/19	Coleg Gwent, Brynbuga	Imogen Ward - 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
Dosbarth Meistr - Biff a Defaid	15-16/5/19	Glynllifon, Caernarfon	Gwion Parry - 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
Dosbarth Meistr - Cynhyrchu Moch	25-26/6/19	Glynllifon, Caernarfon	Elin Jones - 01248 660 082 / 07494 478 652 elin.haf.jones@menterabusnes.co.uk
Meistr ar Borfa - Biff a Defaid	2-3/7/19	Coleg Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr	Elan Davies - 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk
Meistr ar Faeth - Defaid	14/8/19	NPTC, Y Drenewydd	Lisa Roberts - 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk
Meistr ar Faeth - Defaid	15/08/19	Glynllifon, Caernarfon	Gwion Parry - 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
Meistr ar Borfa - Llaeth	8/9/10	Gelli Aur, Caerfyrddin	Abby James - 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk




Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r swyddog technegol a restrir uchod, neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

Diweddariad prosiect cynllun rheoli mastitis ar Fferm Longlands

Ar Fferm Longlands mae Dr James Breen wedi gweithredu Cynllun Rheoli Mastitis Cenedlaethol AHDB Dairy yn ogystal ag offeryn dadansoddi patrwm mastitis buches newydd yr AHDB. Mae'r offeryn hwn yn cynnig dull hollol awtomataidd o asesu'r patrymau heintiad mastitis sy'n bresennol ar y fferm, trwy ddefnyddio cyfrif celloedd somatig a chofnodion mastitis clinigol.

Mae'r asesiad cychwynnol a'r dilyniant i'r cynllun wedi digwydd, gan danlinellu'r meysydd sy'n creu'r risg fwyaf o fastitis yn y fuches. Yn ystod yr ymweliad cyntaf, dadansoddodd James rannau gwahanol o'r fferm i gael darlun cyfan a chreu dull mwy personol. Mae'r ddau gynllun yn gadael i ffermwyr a milfeddygon asesu a blaenoriaethu meysydd rheoli allweddol ac, o bosibl, canfod problemau sy'n dod i'r golwg yn y cyfnod sych a/neu gyfnod llaetha.

PATRYMAU CYFRIF CELLOEDD SOMATIG A MASTITIS CLINIGOL



Achosion Misol mewn Buchod: Dangosir y nifer o achosion o fastitis mewn buchod mewn lliwiau sy'n adlewyrchu ffynhonnell dybiedig yr heintiad.

Achosion cyntaf cyfnod sych yw'r achosion glas (h.y. achos cyntaf o fewn 30 diwrnod i loea).

Achosion sy'n digwydd drachefn mewn buchod sych yw'r achosion coch (h.y. mastitis sy'n digwydd mewn buchwch a gofnododd yr achos cyntaf o fewn 30 diwrnod i loea).

Achosion cyntaf mewn cyfnod llaetha yw'r achosion melyn (h.y. achos cyntaf >30 diwrnod yn llaetha heb unrhyw achosion mastitis yn y llaethiad hwnnw).

Mae'r lliw gwyrdd yn dynodi achosion sy'n digwydd drachefn yn ystod cyfnod llaetha (h.y. achos mastitis dilynol mewn llaethiad yn digwydd mewn buchwch a gofnododd yr achos cyntaf mewn llaethiad 31 diwrnod neu fwy ar ôl lloea).

Digwyddiadau mastitis mewn buchod fwy na 305 diwrnod ar ôl lloea yw'r achosion pinc.

Gwelwyd bod yr hyn sy'n digwydd i fuchod sych a'r rhai sy'n llaetha yn ystod misoedd yr haf yn cael dylanwad mawr ar y gyfradd mastitis clinigol. O'r data, mae'n amlwg bod buchod yn dueddol o ddatblygu mastitis clinigol yn ystod 30 diwrnod cyntaf y llaethiad yn ystod yr haf. Mewn blynyddoedd blaenorol roedd yr achosion newydd mewn buchod ar ôl 30 diwrnod yn amlygu ffactorau amgylcheddol yn y sied wartheg, ond mae hyn wedi gwella yn sylweddol ers gosod system awyru pwysedd positif. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi'r pwyslais ar wella'r rheolaeth ar fuchod sych a throsglwyddo i arafu'r cyfraddau mastitis clinigol.

Mae'r cyfnod buchod sych yn ystod yr haf wedi cael dylanwad mawr ar gyfrif celloedd. Ond, mae buchod cyfrif celloedd isel sydd yn cael eu sychu wedi tueddu i loea yn ôl i'r fuches gyda chyfrif celloedd uchel ar gyfradd uchel ers y Pasg, gan awgrymu bod yr heintiadau wedi cael eu codi yn ystod y cyfnod sych. Mae bacterioleg o fuchod gyda chyfrif cronig o gelloedd somatig yn tanlinellu pwysigrwydd *Streptococcus uberis*, pathogen amgylcheddol sy'n cael ei godi fel arfer mewn systemau iardiau rhydd sydd hefyd yn gallu arwain at heintiad mwy parhaol yn ystod llaethiad. Mae'r 'patrwm' mastitis felly yn un o heintiadau amgylcheddol o'r cyfnod sych yn bennaf ar hyn o bryd.

CYNLLUN MASTITIS

Mae'r cynllun rheoli mastitis yn canolbwyntio ar bathogenau amgylcheddol gyda'r rhan fwyaf o'r heintiadau o'r cyfnod sych. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar reoli'r cyfnod sych, buchod sy'n lloea, trin mastitis a monitro a chasglu data. Nod y cynllun hwn yw:

- Rheoli a lleihau'r gyfradd o fuchod cyfrif celloedd uchel NEWYDD wrth eu godro gyntaf o'r cyfartaledd arferol o 21.0% i <10%
- Rheoli a lleihau'r gyfradd o achosion mastitis clinigol NEWYDD mewn buchod lai na 30 diwrnod ers lloea yn y 12 mis nesaf o gyfartaledd o >3 ym mhob 12 i <1 ym mhob 12 o'r buchod sydd wedi lloea

Y meysydd allweddol i'w taclo gyntaf yw:

- Rhoi o leiaf 2 metr sgwâr o ofod loetran i fuchod sych sydd yn agos at loea
- Llwybrau, ardaloedd loetran a phorthi i gael eu clirio â chrafwr o leiaf ddwywaith y dydd
- Gwellt glân dan fuchod sych agos at loea bob dydd a rhoi tywod dan fuchod pell o loea bob yn ail ddiwrnod
- Gweithredu therapi buchod sych yn lanwaith gan ddefnyddio gwirod feddygol ar bob teth cyn ei thrin
- Symud tuag at therapi buchod sych dethol dros amser, gan ddefnyddio seliwr teth yn unig ar fuchod cyfrif celloedd isel
- Yr holl staff i wirio hidlydd yn y llinell ar ôl i bob buwch gael ei godro; rhaid trin yr holl achosion clinigol

CASGLIAD

Bydd y pwyslais dros yr ychydig fisoedd nesaf ar reoli buchod sych a'r amgylchedd i fuchod sych a buchod yn lloea gan eu hail-asesu yn y flwyddyn newydd.

Y cynllun ar gyfer gweddill y prosiect fydd lleihau effaith mastitis a chyfrif celloedd somatig yn Longlands.

- Lleihau cyfraddau mastitis o gyfartaledd o 30 achos i bob 100 o fuchod i <25 achos i bob 100 o fuchod
- Lleihau cyfradd heintiad cyfnod sych cyfrif celloedd somatig o 21.0% i <10%
- Cynyddu cyfradd gwella cyfrif celloedd somatig buchod sych o 69.1% i >85%
- Hefyd gostwng y defnydd cyffredinol o wrthfotig i'r targedau a argymhellir o <20mg/Uned Cywiro Poblogaeth (PCU)

Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu Cyswllt Ffermio

- ar y trywydd iawn i wella eich busnes.

A ydych chi a'ch busnes yn manteisio'n llawn ar bopeth sydd gan Cyswllt Ffermio i'w gynnig?

Yn ogystal â'r digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth a gynigir gan Cyswllt Ffermio, gallech chi a'ch busnes hefyd dderbyn cefnogaeth drwy'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes, gan roi mynediad at y canlynol:

cyllid o hyd at **80%** tuag at oddeutu **60** o gyrsiau byr achrededig

dros **70** o gyrsiau E-ddysgu rhyngweithiol wedi'u hariannu'n llawn

Cynllun Datblygu Personol (PDP)

eich cofnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) eich hun

Rhaglen Iechyd a Lles Anifeiliaid - cefnogaeth wedi'i ariannu'n llawn

Rhaglen Sgiliau TG - cefnogaeth TG wedi'i ariannu'n llawn, yn addas ar gyfer pobl o bobl lefel sgiliau

Os hoffech chi ymgeisio ar gyfer cyllid o 80% tuag at gwrs achrededig, bydd y cyfnod ymgeisio presennol ar agor tan **17:00 ddydd Gwener 1 Mawrth 2019.**

Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn gallu cwblhau neu ddiweddarau eich PDP a chyflwyno cais am gyllid i gefnogi hyfforddiant.

Noder: Er mwyn cael mynediad at y gefnogaeth uchod, bydd angen i chi gofrestru eich cyfeiriad e-bost unigol gyda Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio a mewngofnodi ar system BOSS (Busnes Cymru) drwy wefan Cyswllt Ffermio. Am gymorth a chefnogaeth, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar: 08456 000 813 neu ewch i www.gov.wales/farmingconnect
I wneud cais am hyfforddiant yn ystod y cyfnod ymgeisio presennol, bydd angen i chi gysylltu â'r Ganolfan Wasanaeth erbyn 17:00 ddydd Llun 25 Chwefror 2019

Cyrsiau Byr Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae arferion iechyd a lles anifeiliaid da yn allweddol i unrhyw fusnes da byw. Mae afiechydon, parasitiaid a salwch yn cael effaith niweidiol ar fusnes, yn lleihau cynhyrchiant, yn cynyddu colledion ac yn cael effaith ar elw.



Mae gwybod sut i drin problemau iechyd anifeiliaid yn brydlon, yn ddiogel ac yn effeithiol yn sgil hanfodol. Trwy'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu gallwch ymgeisio am 80% o'r cyllid tuag at y cyrsiau canlynol sydd wedi eu hachredu. Ar ôl llwyddo yn y cyrsiau, byddwch yn cael Tystysgrif Medrusrwydd wedi ei hachredu y gellir ei defnyddio i brynu dip defaid, rhoi meddyginiaethau milfeddygol a bodloni'r gofynion Gwarant Fferm.

- Meistroli Meddyginiaethau
- Cwrs Defnydd Diogel o Feddyginiaethau Milfeddygol Lefel 2

Mae'r cyfarwyddyd Gwarant Fferm yn nodi y dylai unrhyw fusnes sy'n prynu, trin a rhoi meddyginiaethau milfeddygol fod ag unigolyn gyda chymwysterau addas ar gael.

Nod y cyrsiau hyn yw cynyddu eich gwybodaeth trwy amlinellu arfer da yn ogystal â gofynion cyfreithiol ar gyfer defnyddio meddyginiaethau ar y fferm.

Ei nod yw cynyddu eich dealltwriaeth o ran y gwahanol fathau o feddyginiaethau a ddefnyddir a sut y mae'r rhain yn ymwneud ag afiechydon cyffredin ar y fferm.

- Dyfarniad Lefel 2 ar Ddefnydd Diogel o Dip Defaid

Mae'r clafwr yn heintus iawn ac mae'n broblem gynyddol i ffermwyr gan achosi straen a bod yn annifyr i ddefaid. Os gadewir y cyflwr heb ei drin, bydd cyflwr yr anifail yn dioddef yn ddifrifol. Mae'n broblem gynyddol o ran lles defaid.



Os hoffech chi wneud cais am 80% o'r cyllid tuag at y cyrsiau hyn neu i gael gwybod pa gyrsiau hyfforddi eraill allai fod o fudd i chi a'ch busnes, cysylltwch â 08456 000 813 neu ewch i dudalennau hyfforddiant gwefan Cyswllt Ffermio:

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/sgiliau-mentora>

Digwyddiadau Cynllun Datblygu Personol (PDP)



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Os ydych chi eisiau gwneud cais am hyfforddiant, bydd angen i chi lenwi neu ddiweddarau PDP a chyflwyno ffurflen gais.

Mae nifer o ddigwyddiadau a gweithdai a drefnwyd gan Cyswllt Ffermio a Darparwyr Hyfforddiant i'ch helpu gyda'r broses.

Gweler isod am ragor o fanylion.

Dyddiad	Amser	Lleoliad
11/02/2019	18:00 - 20:00	Ysgol y Berwyn, Y Bala LL23 7RU
	14:00 - 20:00	Swyddfa Menter a Busnes, Aberystwyth SY23 3AH
	19:00 - 21:00	Grŵp Colegau NPTC, Campws Castell-nedd, Castell-nedd SA10 7RF
13/02/2019	18:00 - 20:00	Coleg Llandrillo, Campws Abergele LL28 4HZ
18/02/2019	14:00 - 20:00	Canolfan Gymuned Tŷ Bloomfield, Arberth, SA67 7ES
20/02/2019	14:00 - 20:00	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Campws Llambled SA48 7ED
	17:30 - 19:30	Coleg Gwent, Campws Brynbuga, Y Rhadyr NP15 1XJ

*Mae'r cyfnod ymgeisio
nesaf ar agor rhwng:*

07/01/19 - 01/03/19

Os ydych chi'n cofrestru am y tro cyntaf er mwyn gwneud cais am hyfforddiant yn ystod y cyfnod uchod, cysylltwch â Cyswllt Ffermio cyn 17:00 ar 25 Chwefror 2019 fan bellaf.



Mae'r darparwyr hyfforddiant hefyd yn cynnig digwyddiadau PDP ar draws Cymru.
Cysylltwch â nhw yn uniongyrchol i wneud apwyntiad.

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Darparwr Hyfforddiant
07/01/2019 hyd nes 01/03/2019	I'w gadarnhau	Campws y Gelli Aur, Caerfyrddin SA32 8NJ	Coleg Sir Gâr
		Dolwen, Abergale, Conwy LL22 8NS	Grŵp Bro Gele
		Coed Pwllacca, Brynawern, Powys LD2 3SE	MWMAC
06/02/19	15:30 - 18:30	Coleg Glynllifon, Caernarfon LL54 5DU	Grŵp Llandrillo Menai
	9:00 - 15:30	The Brick Barn, Neuadd Dolobran, Meifod SY22 6HX	Training for the Future Ltd
07/02/19	10:00 - 16:00	12 Goat Street, Hwlfordd SA61 1PX	PMR Training
	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
08/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
	9:00 - 17:00	Coleg Penybont, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3UR	Engage Training Ltd
11/02/19	10:00 - 16:00	8 Mansel Street, Caerfyrddin SA31 1PX	Really Pro Ltd
	14:00 - 18:00	Caerlan Farm, Tonypany CF40 1SN	Simply the Best Training Ltd
13/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
14/02/19	16:00 - 19:00	Machynlleth	Simply the Best Training Ltd
15/02/19	9:30 - 15:30	Marchnad Da Byw Aberhonddu LD3 8EX	Jimmy Hughes Services Ltd
15/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
18/02/19	14:00 - 18:00	Caerlan Farm, Tonypany CF40 1SN	Simply the Best Training Ltd
	18:00 - 20:00	Coleg Cambria - Llysfasi, Rhuthun LL15 2LB	Coleg Cambria - Llysfasi
20/02/19	15:30 - 18:30	Coleg Glynllifon, Caernarfon LL54 5DU	Grŵp Llandrillo Menai
	10:00 - 16:00	The Starling Cloud, Aberystwyth SY23 3TL	Jimmy Hughes Services Ltd
21/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
22/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
25/02/19	14:00 - 18:00	Caerlan Farm, Tonypany CF40 1SN	Simply the Best Training Ltd
27/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
28/02/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd
	10:00 - 16:00	12 Goat Street, Hwlfordd SA61 1PX	PMR Training
	9:30 - 15:30	Dolswydd Farm, Penybont, Llandrindod LD1 5UB	Jimmy Hughes Services Ltd
01/03/19	8:30 - 16:00	Tŷ Mawr Road, Gilwern, Y Fenni NP7 0EB	Heads of the Valleys Training Ltd

Darparwr Hyfforddiant	Cyswllt
Coleg Cambria - Llysfasi	Lesley Innes 01978 267 931
Coleg Sir Gâr	Elizabeth Morgan 01554 748 394
Engage Training Ltd	Kimberley Roberts 01656 302 302 estyniad 703
Grŵp Bro Gele	Irweidd Griffiths 01492 680 499
Grŵp Llandrillo Menai	Dewi Williams 01286 830 261 estyniad 8539
Heads of the Valleys Training Ltd	Laura Broome 01873 832 000
Jimmy Hughes Services Ltd	Rachel Hughes 01597 850 080 / 07766 539 389
MWMAC	Victoria Laurie 01597 433 117
Grŵp Colegau NPTC - Campws Y Drenewydd	Martin Watkin 01686 614 572
PMR Training	Elinor Roberts 01437 761 321
Really Pro Ltd	Kelly Banks / Amy Banks 08448 707 568
Simply the Best Training Ltd	Julie Thomas 01443 670 267
Training for the Future Ltd	Suzanne Jones 01938 500 900

Ffermio mewn partneriaeth â'i dad a'i ewythr, Mae James Powell yn ffermio 180 ha (450 erw) ar yr ucheldir yn Nolygarn, Llanbadarn Fynydd, Powys. Yn briod â Rachel ac yn dad i dri mab, mae James yn cadw 1,000 o famogiaid croes Aberfield yn bennaf, a buches fagu o 50. Roedd yn sgolor Hybu Cig Cymru yn 2014, ac mae'n angerddol am amaethyddiaeth a materion gwledig.

Yn ddiweddar daeth Dolygarn yn un o safleoedd ffocws Cyswllt Ffermio, a gan weithio yn glos gyda chyingor arbenigol yr Ymgynghorydd Fferm, James Daniel o Precision Grazing Ltd, datblygwyd prosiect i wella'r rheolaeth ar laswelltir ar y fferm. Prif nod y prosiect hwn yw dangos y broses o drosi fferm bîff a defaid draddodiadol i system bori cylchdro, a'r manteision cysylltiedig i gynorthwyo yn nod y fferm o ddod yn system aeafu ar laswellt yn unig. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar sut y gall rheoli porfeydd a chreu

cyllideb borthiant gefnogi llunio penderfyniadau pwysig ar y fferm o ran y canlynol:


- Prynu stoc
- Dyddiadau troi at y tarw a'r hwrdd
- Dyddiad diddyfnu
- Chwalu nitrogen
- Torri silwair
- Porthi ychwanegolion
- Siediau



Mae mesur glaswellt trwy ddefnyddio mesurydd plât wedi bod yn digwydd yn Nolygarn ers mis Medi, ac mae mesuriadau yn cael eu cymryd yn fisol o leiaf dros gyfnod y gaeaf. Mae'r mesuriadau glaswellt yma, ynghyd â'r niferoedd stoc ar y fferm, i gyd yn cael eu cofnodi ar feddalwedd Farmax lle gall cyflenwad y fferm gael ei gymharu â'r galw am stoc.

O'r data hwn, gallwn gyfrifo'r nifer o ddyddiau y byddai'n ei gymryd i nifer benodol o famogiaid bori pob cae. Yn ogystal â chyngor arbenigol gan James Daniel, mae casglu a defnyddio'r data hwn wedi rhoi cyfle i James Powell gynllunio ymlaen llaw a gwneud penderfyniadau pwysig, ar sail gwybodaeth dros gyfnod y gaeaf.

Mae'r graff isod yn dangos y gorchudd glaswellt ar y fferm ym mis Tachwedd 2018:



Trwy fesur gorchudd cyfartalog y fferm, a mewnbynnu'r mesuriadau hyn i'r feddalwedd Farmax, cafodd James rybudd cynnar y byddai'n rhedeg allan o borfa ddigonol erbyn tua chanol Ionawr, ac felly roedd yn ymwybodol y byddai angen porthiant ychwanegol i sicrhau y byddai'r mamogiaid cyfeb yn cael digon o faeth i'w cadw nes y byddent yn ŵyna.

Awgrymiadau rheoli pori gan James Daniel, Precision Grazing Ltd, yn ystod y cyfnod cyfeb:

1. Ar ôl tynnu'r hyrddod, ystyriwch gyfuno'r grwpiau iddynt fedru pori'r caeau yn gyflymach
2. Anelwch at bori cae cyn pen 7 diwrnod mewn tywydd sych neu 2-4 diwrnod ar dywydd gwlyb
3. Os bydd y tir yn cadw mewn cyflwr gweddol yna bydd y defnydd yn uchel (>90%), os bydd yn mynd yn wlyb bydd y defnydd yn gostwng

“Os na fyddwch chi'n ei fesur, allwch chi ddim ei reoli.”



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Lleihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd defaid dros gyfnod ŵyna trwy reoli arfer gorau a gwella maeth a hylendid

Mae'r prosiect hwn yn gwneud newidiadau i arferion rheoli'r ddiadell, yn bennaf drwy wella maeth a hylendid, er mwyn lleihau'r angen ar gyfer gwrthfotigau a gwella cynhyrchiant ar yr un pryd, a pharhau i gynnal safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.

Gweithgaredd a chanfyddiadau ar ôl tymor ŵyna 2018

Ansawdd Silwair

TARGED: Deunydd Sych DM 30-35%

Gwerth D 69-72%

Egni Metaboladwy ME 11-11.5 MJ/kg DM

Protein Crai 15-18%

Cafodd dognau eu llunio ar gyfer pob diadell yn seiliedig ar ddadansoddiad unigol o'r silwair

Amsugniad Colostrwm

Yn gyffredinol, roedd ŵyn yn derbyn lefelau digonol o golostrwm, ar wahân i ambell un

Cafodd prosesau rheoli eu hasesu er mwyn gwirio'r rhesymau pam nad oedd yr ŵyn hyn wedi derbyn digon o golostrwm

Samplu Gwellt

Cymerwyd samplau gwellt o'r gorlan cyn ŵyna, corlannau ar ôl ŵyna a chorlannau ŵyn llywaeth

Gallai ffermwyr asesu lefelau bacteria, gan gynnwys, *Staffylococws*, *Streptococws* ac *E.Coli*, ac addasu rheolaeth o gorlannau os oedd lefelau'n uchel

Proffilio Metabolig

Yn cael ei wneud 2-3 wythnos cyn ŵyna. Roedd lefelau egni'n dda, sy'n dangos fod dognau wedi'i llunio'n gywir. Gwelwyd lefelau albwmyn isel sy'n awgrymu her afiechyd diweddar. Cafodd hyn ei archwilio a gwelwyd amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys, llyngyr yr iau, llyngyr a *chryptosporidiosis*.

Canlyniadau hyd yn hyn:

Lleihawyd y defnydd proffylactig o wrthfotigau yn ystod y cyfnod ŵyna

Roedd y profion a'r cyngor wedi hynny yn galluogi ffermydd i addasu'r rheolaeth a gwella maeth ac iechyd mamogiaid ac ŵyn

Roedd llai o achosion o glwy'r cymalau ac ysgôth

"Mae'r prosiect wedi gwneud i mi feddwl mwy am yr agwedd iechyd. Mae'r profion gwellt yn y prif gorlannau a'r corlannau cyn ŵyna wedi bod yn bwysig iawn i mi fel fy mod yn gwybod beth i'w wneud i leihau *E.Coli* eleni. Rydw i wedi dysgu bod angen i mi galchu mwy o amgylch ardaloedd gwlyb megis cafnau a mannau bwydo. Un o'r pethau eraill a ddysgais oedd pwysigrwydd sicrhau digon o le i bob mamog fwydo ar silwair cyn ŵyna, a sicrhau bod digon o ffibr yn y corlannau ar ôl ŵyna er mwyn sicrhau'r colostrwm gorau. Wrth symud ymlaen, rwy'n credu bod angen gwella ar y mân bethau y mae'r prosiect wedi tynnu fy sylw atynt." Gareth Thomas, Tregynrig, Ynys Môn.





EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Datblygu Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria i reoli ac ehangu ei gadwyn gyflenwi fer


Bydd cadwyni cyflenwi bwyd byr yn cael eu creu pan fydd ffermwyr yn gwerthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i ddefnyddwyr neu gyda chyn lleied â phosibl o werthwyr rhyngddynt. Maent yn dod yn gynyddol boblogaidd wrth i ddefnyddwyr ddymuno cael cynnyrch ffres a thymhorol ond hefyd fod eisiau gwybod o ble mae eu bwyd yn dod.

Sefydlodd Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria gadwyn gyflenwi fer yn 2015 gyda chigydd arlwygo sy'n cyflenwi ar gyfer gwestai a bwytai moethus. Mae'r pum busnes fferm sydd yn y grŵp wedi gweithio'n galed i fod yn y sefyllfa hon a'u gobaith yw datblygu'r grŵp ymhellach er mwyn rheoli ac ehangu'r farchnad mewn modd cynaliadwy. Trwy'r prosiect, bydd y ffermwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i gynnal y gadwyn gyflenwi fer yn y tymor hir trwy gymryd rhan mewn nifer o weithdai a fydd yn edrych ar y meysydd canlynol:

- ➔ Rheoli perthynas â chwsmeriaid
- ➔ Hyrwyddo'r cynnyrch
- ➔ Deall gofynion y defnyddiwr terfynol
- ➔ Bwtsiera a phrosesu cig coch
- ➔ Chwarae rôl effeithiol yn y gadwyn gyflenwi
- ➔ Rheoli'r cyfryngau cymdeithasol
- ➔ Rheoli'r wefan

cynllun bocsys cig. Mae bocsys cig sy'n cynnwys amrediad o doriadau cig (cig i'w rostio, stecen stiwiio, byrgys a briwgig) yn dod yn fwy a mwy poblogaidd gyda chwsmeriaid sy'n dymuno prynu cig da o ffynhonnell adnabyddus. Y gweithdy nesaf sydd ar y gweill ar gyfer y grŵp yw'r gweithdy bwtsiera, a fydd yn cynorthwyo aelodau i ennill tystysgrif fwtsiera achrededig. Drwy sicrhau mwy o reolaeth dros bob cam o'r gadwyn gyflenwi, o gynhyrchu anifeiliaid o safon hyd at doriad o gig eidion o ansawdd uchel, bydd y pum busnes fferm yma'n gallu datblygu cadwyn gyflenwi gynaliadwy.

Gyda chymaint o ffermydd ledled Cymru yn cynhyrchu cig eidion a chig oen o safon uchel oddi ar y borfa, mae potensial enfawr i ffermwyr sicrhau mwy o reolaeth dros y pris maen nhw'n ei dderbyn am eu cynnyrch. Mae cig a gynhyrchir yng Nghymru yn rhywbeth arbennig iawn, ac mae aelodau'r grŵp yn falch iawn o'i ansawdd, gwerth maethol a'i flas gwych. Gobeithio y bydd y grŵp yma'n ysbrydoli mwy o ffermwyr i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu llwybrau eu hunain i'r farchnad, gan gynyddu gwerth yr hyn maen nhw'n ei gynhyrchu.



Prosiect Cydamseru yn llwyddiant ar Fferam Gyd

Er bod y prosiect cydamseru wedi dod i ben ar Fferam Gyd, safle ffocws Cyswllt Ffermio yn Llanbabo, Ynys Môn erbyn hyn, gallwn ddweud yn bendant y bydd Llŷr Hughes yn dal ati i gydamseru ei wartheg Limousin pedigri a'i wartheg masnachol yn y dyfodol.

Ers i'r prosiect, oedd yn canolbwyntio ar **fanteision** posibl cydamseru gwartheg i gael patrwm lloea tynnach yn ogystal â chynnydd mewn pwysau byw ddechrau, mae Llŷr wedi gweld rhai **canlyniadau trawiadol**.

Trwy ddilyn cynllun a ddatblygwyd gan arbenigwr bridio, roedd buchod yn y grŵp wedi ei gydamseru yn cael tarw potel ddwywaith ym Mehefin 2017 gan ddefnyddio semen o Derrygullinane Kingbull, tarw Limousin pedigri sy'n adnabyddus am gynhyrchu lloeau gyda chyfraddau tyfu gwell. Dangosodd canlyniadau sganio bod **77%** o'r 55 o fuchod yn y grŵp yn gyflo ar ôl y tarw potel cyntaf, oedd tu hwnt i'r targed gwreiddiol o **60%**.

Dechreuodd y grŵp wedi ei gydamseru loea ar 12 Mawrth 2018 a gorffen ar 24 Mawrth, gydag 14 o fuchod yn lloea mewn cyfnod o 12 awr. Er bod hyn yn drwm o ran gwaith ac angen digon o le yn y sied, roedd yn well gan Llŷr y dull hwn na tharw naturiol, oedd yn golygu bod y cyfnod lloea yn llusgo am fwy o amser.

Gwerthwyd y lloeau yn 7-8 mis oed fel lloeau sugno yn y farchnad leol yn y Gaerwen ar 3 Hydref 2018, yn pwyso **31kg y llo** yn drymach ar gyfartaledd mewn cymhariaeth â lloeau'r flwyddyn cynt oedd yn **£820** ar gyfartaledd i heffrod a lloeau gwryw. Yn 2018, roedd y lloeau gwryw yn **£920 y pen** ar gyfartaledd a'r heffrod yn **£780 y pen**.

Awgrymiadau da Llŷr i wneud i gydamseru weithio:

- Sylw i fanylion yn hanfodol
- Systemau trin stoc yn hanfodol, nid yn unig o ran yr ochr ymarferol, ond hefyd o ran iechyd a diogelwch
- Angen digon o le yn yr adeiladau a'r caeau wrth law a'r iard
- Cofio troi teirw at y buchod ar ôl iddynt gael tarw potel a'u gwyllo yn ofalus rhag iddyn nhw ofyn tarw eto, er mwyn sicrhau bod y tarw yn gallu ymdopi.

Mae adroddiad terfynol y prosiect ar gael ar ein gwefan erbyn hyn.





Mae rheoli gwrychoedd yn rhan ganolog o'r calendr ffermio sy'n cynnig nifer o fanteision i'r fferm. Mae plygu gwrychoedd yn rhan arferol o reoli'r gwrychoedd sydd â rôl allweddol wrth sicrhau bod y gwrychoedd yn goroesi yn y tymor hir. Bydd plygu gwrych yn achlysurol yn **cynyddu** oes naturiol y planhigion yn y gwrych ac mae'r broses yn hybu egin newydd i dyfu gan gyfrannu at ddatblygiad gwrych dwys a chryf.

Mae gwrychoedd yn ffynhonnell fwyd werthfawr a gall amseriad y torri neu drimio fod yn allweddol iddynt, felly'r cyngor yw peidio â'u torri hyd yn hwyr yn y gaeaf. Mae'n well rheoli gwrychoedd yn ystod y tymor pan fydd y planhigion yng nghwsg h.y. rhwng canol Hydref a diwedd Mawrth. Dylid osgoi cyfnodau hir o rew a gall gwyntoedd mawr wneud i goed wedi eu torri fod yn amhosib gweithio hefo nhw. Mae'n well plygu hen blanhigion brau a bôn-docio, planhigion marwaid yn enwedig, ym mis Chwefror.


Er mwyn cadw'r gwrych yn dew a thrwchus, dylid plygu'r canghennau yn glos a'u plethu a fydd yn cynnig cynefin i adar bach nythu. Dylai'r gwrych fod yn llawn o'r ddaear i fyny, ond nid yw hyn yn bosibl bob amser mewn gwrychoedd hŷn. Er mwyn llenwi'r bylchau yng ngwaelod y gwrych, bydd plannu coed celyn yn llenwi'r bwlch a byddant yn plethu eu hunain trwy'r gwrych wrth dyfu.

Mae plygu gwrych yn grefft, yn arbennig pan fydd yn cynnwys plygu planhigion mawr. Dylid cael cyngor a chyfarwyddyd gan arbenigwyr. Trwy Raglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu Cyswllt Ffermio, gallwch wneud cais am **80%** o'r cyllid tuag at gwrs hyfforddi Plygu Gwrych Ymarferol a fydd yn hybu gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am y grefft draddodiadol o blygu gwrych, yn cynnig sgiliau rheoli gwrychoedd ac yn annog cadwraeth a rheolaeth bositif ar wrychoedd. Edrychwch ar y dudalen sgiliau a mentora ar ein gwefan:

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/sgiliau-mentora>

Wrth reoli, efallai y byddwch yn ystyried torri coed yn y gwrych. Cyn gwneud hynny dylech edrych ar: lyfryn 'Torri Coed – Cael Caniatâd' ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os ydych yn ystyried clirio gwrych yna mae angen i chi ymgynghori â'ch awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud hynny dan Reoliadau Gwrychoedd 1997.



Awgrymiadau da ar gyfer cael elw o wartheg bîff magu ar Safle Arddangos Cyswllt Ffermio

Rhaid i gynhyrchwyr bîff Cymru gyfateb brîd y fuwch a'u hamgylchedd ar y fferm fel cam cyntaf pwysig i gynhyrchu yn broffidiol.




Ar Fferm Newton, Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio, mae'r ffermwyr Richard a Helen Roderick a'u teulu yn newid o fuchod croes Limousin a chroes Glas Gwlad Belg i Stabilisers; yn 2019 byddant yn lloea 94 o fuchod a heffrod – mae'r heffrod yn lloea yn ddwy flwydd oed.

Un o'r rhesymau cyntaf am y newid oedd symud tuag at fuches sy'n lloea'n hawdd ac yn cynhyrchu ei stoc cyfnewid ei hun gan ddefnyddio brîd mamol addfwyn sy'n gallu ffynnu ar borthiant a system aeafu allan.

Mae'r fuches yn addas i bori glaswellt neu fetys porthiant am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, felly mae'r teulu Roderick wedi gostwng eu costau porthiant.

Yn 2018, rhoddwyd tarw potel i'r heffrod gan droi tarw atynt am naw wythnos, tra'r oedd y buchod gyda theirw am 76 diwrnod. Dangosodd y canlyniadau sganio bod 94 o'r 96 o anifeiliaid yn gyflo, gydag o leiaf ddwy yn cario gefeiliaid.



Mae'r mynegai lloea - sy'n ddull da o fesur ffrwythlondeb a lloea mewn cyfnod tynn - wedi gostwng o 400 diwrnod i 365. Yn 2018 roedd 73% o'r buchod wedi lloea yn y tair wythnos gyntaf, gyda 96% o'r buchod wedi lloea yn y chwe wythnos gyntaf.

Roedd yr heffrod ar gyfartaledd yn 256kg wrth eu diddyfnu, ar 46% o bwysau byw eu mamau tra'r oedd y teirw, y rhoddwyd dwysfwyd iddynt yn bedwar mis oed, yn pwyso 316kg, 52% o bwysau'r fam.

“Cynnal y fuwch yw un o'r costau mwyaf o gadw buwch. Os oes gennych fuwch 700kg, bydd arni angen llawer mwy o waith cynnal na buwch 600kg,” dywedodd Mr Rhidian Jones, arbenigwr bîff, a fu'n siarad yn ddiweddar mewn digwyddiad agored ar Fferm Newton.

Dengys Arolwg Busnesau Fferm Cymru 2016/17, i'r buchesi magu sydd yn y traean uchaf o ran perfformiad, bod yr elw gros o bob buwch yn £599 mewn cymhariaeth â £420 ar gyfer buchesi sy'n perfformio yn agos at y cyfartaledd.

“Nid yw'n hawdd gwneud arian o fuchod magu, ond mae'r rhai sydd yn gwneud elw yn gwneud yn dda ac yn gwneud £179 yn fwy am bob buwch na'r cyfartaledd,” yn ôl Mr Jones.

Mae nifer o ffactorau sy'n gorfod cyfuno i gyflawni hyn, ac mae cyflwr corff y fuwch yn un o'r rhai pennaf o'r rhain.

"Nid ydych am i fuchod fod yn rhy ffit wrth loea, anelwch at sgôr cyflwr corff o rhwng 2 a 2.5, ond dylent fod ar raddfa gynyddol o ran maeth pan fyddant yn mynd allan i laswellt. Bydd y math cywir o fuwch yn gwella ei chyflwr ar laswellt yn fwy rhwydd," dywedodd Mr Jones o RJ Livestock Systems.

"Rydych eisiau iddynt fod yn gymharol fain wrth loea, ond yn gwella eu cyflwr i fynd yn ôl at y tarw i gael cyfraddau cyfebu da. Paru ar sgôr cyflwr corff o 2.5 i 3 sy'n rhoi'r canlyniadau gorau."

Mae llawer o gynhyrchwyr magu yn lloea eu buchesi yn rhy gynnar i'r glaswellt fod wedi tyfu sy'n golygu bod rhaid cadw buchod a lloeau ifanc dan do, gan greu risg y bydd y lloeau yn cael afiechydon a thynnu costau porthiant uwch mewn cymhariaeth ag anifeiliaid ar laswellt.

"Os bydd buchod yn cael eu cadw dan do ar ôl lloea, mae ganddynt gyfnod byrrach i adfer eu cyflwr ar laswellt o safon uchel cyn mynd yn ôl at y tarw," dywedodd Mr Jones.

Mae'n argymhell defnyddio Gwerthoedd Bridio Tybiedig i ddewis anifeiliaid â nodweddion mamol da, er enghraifft, rhwyddineb lloea sy'n berthnasol i gynhyrchwyr sy'n bridio eu stoc cyfnewid eu hunain.

Mae ffigyrau cynhyrchu llaeth yn bwysig hefyd, ychwanegodd Mr Jones. "Bydd llo yn tyfu yn gyflymach ar laeth na dim byd arall, felly mae cael mam laethog yn allweddol."



Gall porthiant ategol hefyd fod yn ddefnyddiol, awgrymodd. "Mae porthiant ategol yn helpu'r rwmen i ddatblygu, ac mae gan lloeau gyfraddau trosi porthiant uwch ar yr oedran hwnnw, felly byddwch yn cael enillion ar eich buddsoddiad."

Mae'r teulu Roderick yn rheoli costau porthi yn y gaeaf trwy gadw buchod a heffrod ar 12 erw o fetys porthiant sy'n costio tua 80c/yr anifail/y dydd.

Dywedodd Sarah Hughes, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio (De Cymru), "Rydym wedi cynnal nifer o brosiectau ar Fferm Newton gan gynnwys un ar effeithlonrwydd y fuches fagu. Mae gwybodaeth fwy manwl am y prosiectau ar wefan Cyswllt Ffermio.

"Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio gyda rhwydwaith o ffermydd arddangos ar draws Cymru i ddangos a phrofi technegau rheoli a thechnoleg newydd, i roi gwybodaeth i ffermwyr iddynt fedru gwneud penderfyniadau deallus ac, efallai, ddefnyddio dulliau tebyg ar eu ffermydd eu hunain, gyda'r gobaith o wella eu busnesau," dywedodd.



ADRODDIAD AR GYNNYDD PROSIECTSLYRI

John Owen, Rheolwr Fferm
- Coleg Sir Gâr Gelli Aur

Bydd y prosiect newydd hwn yn lleihau gwastraff fferm mewn modd blaengar ac yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac ymdrin ag effaith y diwydiant amaethyddol ar yr amgylchedd trwy ddatblygu system i dynnu dŵr a'i buro i reoli slyri ar ffermydd. Wrth i'r diwydiant llaeth ddwysau, mae rheoli slyri yn dod yn broblem gynyddol i ffermwyr a'r amgylchedd.

Y diweddaraf am y gwaith a wnaed ar y Prosiectslyri ers y diwrnod agored a gynhaliwyd ar 31 Awst.

Ers y diwrnod agored, rydym wedi bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar werthuso'r slyri crai a'r dŵr budr sy'n cael ei wahanu, cyn ei wahanu yn fecanyddol ac ar ôl hynny. Y rhesymeg tu ôl i hyn yw bod angen i'r hylif sy'n cael ei drin ag electronau fod â chynnwys sych sefydlog (dan 3% o gynnwys sych).

Yn ymarferol, yr hyn yr ydym wedi ei weld yw bod amrywiad mawr yn y cynnwys sych o ddydd i ddydd gan ddibynnu ar y tywydd. Nid oedd hyn yn annisgwyl, ond mae'r amrywiad yn fwy na'r un a ragwelwyd. Roeddem hefyd wedi disgwyl i'r broses wahanu fecanyddol yn yr allgyrchydd decanter a'r wasg sgrïw gysoni'r amrywiad yn y slyri crai a chynhyrchu cynnwys sych mwy sefydlog yn yr hylif wedi ei wahanu. Nid yw'r problemau yma yn rhai anorchfygol o gwbl ac rydym ar hyn o bryd yn cymysgu'r tail crai â dŵr budr i gael cynnyrch mwy sefydlog. Gall y patrwm terfynol gynnwys tynnu'r tail o danc cymysgu yn hytrach nag yn uniongyrchol o'r pwll slyri.

Rydym yn parhau i gasglu llawer iawn o

ddata i groesgyfeirio a gwerthuso ac anfonir samplau yn gyson at labordai Cyfoeth Naturiol Cymru yn Abertawe i'w dilysu. Wrth i ni gynyddu'r gronfa ddata, bydd y wybodaeth hon yn dod yn werthfawr iawn ar gyfer rhoi adroddiadau a'r newyddion diweddaraf.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gael proses weithredol yn ei lle yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gan gynhyrchu deunydd wedi ei wahanu i ni redeg ein treialon maes ar y defnydd mwyaf effeithlon o'r deunydd wedi ei wahanu mewn system ar laswelltir.

Mae cyhoeddiadau diweddar gan Weinidogion am newidiadau i reoliadau rheoli maetholion a slyri wedi cynyddu ein huchelgais i gynnig dewis gwahanol i'r dull traddodiadol o drin slyri. Rydym yn benderfynol bod y dechnoleg yr ydym yn ei dreialu yn addas fel dewis cost effeithiol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyswllt Ffermio www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Archwilio'r defnydd o gymysgedd sglodion coed i reoli chwyn wrth gynhyrchu llysiau organig

Busnes teuluol yw Square Farm ger Trefynwy sy'n cynnwys siop fferm lwyddiannus yn gwerthu bwydydd a dyfwyd yno yn organig yn ogystal ag amrywiaeth o gynnyrch lleol o Ddyffryn Gwy a'r ardaloedd cyfagos. Tyfir dros 90 o wahanol fathau o lysiau gydag ardystiad organig sydd hefyd yn cyflenwi cynllun blychau llysiau gan gynnwys cêl ffres, broccoli porffor a broccoli Romanesco yn ogystal â'r llysiau traddodiadol fel cennin, moron a thatws. Menter newydd ar y fferm yw tyfu asbaragws fydd yn cael ei dyfu yn organig gyda chefnogaeth cais llwyddiannus i Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP). Mae'r fferm hefyd yn aelod o grŵp EIP Wales sy'n gwerthuso'r defnydd o beiriant chwynnu robotidd cyfrifiadurol.

Wrth wynebu'r her barhaus o reoli chwyn, sefydlwyd cynllun treialu i asesu a ellid defnyddio sglodion coed gwastraff gan drinwyr coed lleol i atal tyfiant y chwyn mewn llysiau wedi eu plannu yn organig.

Yn wahanol i lwch lli a chymysgedd rhisgl sydd yn unffurf, mae sglodion coed rhai sy'n trin coed yn cynnwys rhisgl, pren a dail yn aml. Oherwydd yr amrywiaeth cemegol a ffisegol yn y rhain maent yn atal y cywasgu a welir yn aml mewn llwch lli a rhisgl a gall hybu gwell perfformiad o ran cadw lleithder, cymedrolï'r tymheredd, rheoli chwyn, a chynaliadwyedd. Mae sglodion coed trinwyr coed hefyd ar gael am ddim gan ei wneud yn ddewis ymarferol yn economaidd.

Trwy ddefnyddio sglodion coed creïr amgylchedd mwy amrywiol sy'n cynnal amrywiaeth o ficrobau, pryfaid ac organebau eraill. Mae cymuned fiolegol amrywiol yn y pridd yn gallu gwrthsefyll ymyrraeth amgylcheddol yn well a bydd yn ei dro yn cynnal poblogaeth fwy amrywiol ac iach o blanhigion. Yn araf y mae sglodion coed yn diraddio, gan fod eu meinwe yn llawn lignin, swberin, tanin a chynnwys naturiol cymhleth arall.

Nid yw'r modd y mae sglodion coed yn atal chwyn rhag tyfu yn cael ei ddeall yn llawn, ond mae'n debyg ei fod yn cynnwys lleihau'r golau (atal rhai hadau rhag egino a lleihau gallu ffotosynthetig dail sydd dan orchudd), allelopathi (atal hadau rhag egino), a lefelau nitrogen is lle mae'r pridd a'r sglodion yn cyffwrdd yn ei gilydd (gan leihau'r nifer o egin sy'n goroesi).

Llwyddwyd i ddod o hyd i ffynhonnell sglodion coed yn lleol yn rhwydd trwy chwilio'r rhyngwyd ac fe'i cludwyd i'r fferm am ddim. Gan fod y fferm yn organig, roedd angen cadarnhau bod y sglodion coed yn dod o goed oedd heb eu chwistrellu.

Rhoddwyd y gorchudd sglodion coed ar 13 Awst o gwmpas broccoli porffor (PSB) oedd newydd eu trawsblannu a phlanhigion seleriac, y ddau yn gnydau tymor hir, ac mae PSB yn cystadlu yn gryf â chwyn a seleriac ddim yn cystadlu, gan ddefnyddio plotiau o:

1

SGLODION COED I DDYFNDER O 50MM

2

PLOT RHEOLI – DIM SGLODION

Rhoddwyd y sglodion coed â llaw o fwced ar beiriant ymestyn ar gyfer y cynllun treialu hwn; ar raddfa fwy, gellid gwneud hyn â pheiriant yn rhwydd â chwalwr tail sy'n chwalu o'r tu ôl.



Cofnodwyd y gorchudd o chwyn a'r rhywogaethau oedd yn bresennol, a chryfder y cnwd, ar 4 Medi a 12 Hydref. Dangosodd y plotiau seleriac a PSB bod y chwyn yn cael eu hatal yn dda, ac yn y cnwd seleriac, roedd y sglodion coed wedi cynyddu cryfder y cnwd ychydig fel y gellid disgwyl mewn tymor sych. Mae hyn yn cadarnhau nad oedd y plotiau â sglodion i'w weld yn effeithio ar y cydbwysedd Carbon-Nitrogen pan fydd y sglodion yn cael eu rhoi ar wyneb y pridd.

Tyfodd y chwyn yn gryf ar y plotiau rheoli seleriac nad oedd yn cystadlu gan orchuddio 73% erbyn 12 Hydref gyda'r perygl y byddai'r cnwd yn cael ei golli yn y chwyn. Y chwyn oedd yn bresennol oedd planhigion blynyddol fel gwlydd yr ieir, marchysgallen a chanwraidd goesgoch, a chwyn parhaol fel dail tafol, dant y llew a marchwellt.

Byddai rheoli chwyn â hof wedi creu costau o £524/ha o leiaf i drin y PSB ddwywaith a £786/ha i drin y seleriac dair gwaith.




Y gorchudd o chwyn ar seleriac heb ei drin | Tachwedd.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Dangosodd y cynllun treialu bod rhoi sglodion coed ar gnydau llysiau wedi eu trawsblannu yn rheoli chwyn yn dda am gyfnod hir ac nid oedd yn ymddangos ei fod yn cystadlu gyda'r cnwd, am nitrogen. Roedd y sglodion coed yn cynyddu'r lleithder yn y pridd mewn blwyddyn sych, yn cymell gweithgarwch gan bryfaid genwair ac ymsefydlodd nifer o fathau o ffwng ar y plotiau.

Ar ôl cynaeafu'r cnwd gall y sglodion gael eu troi i'r pridd gyda gweddillion y cnwd ac er y gall gystadlu am nitrogen gyda chnydau dilynol, gellid lliniaru hyn trwy ddefnyddio tail a ganiateir neu trwy dyfu cnwd codlys fel rhan o'r cylchdro. Yn y pen draw byddai'r nitrogen yn cael ei ryddhau yn araf eto er budd i'r cnydau dilynol.

Mae rhoi gorchudd fel hyn yn fwyaf tebygol o fod yn gost effeithiol ar gnydau llysiau parhaol gan gynnwys rhiwbob, asparagws ac ati, lle na fydd y pridd yn cael ei drin am sawl blwyddyn a gall wella strwythur y pridd a gwrthsefyll sychder wrth leihau'r erydu ar y pridd.



ACADEMI AMAETH AGRI ACADEMY

2019

Ysbrydoli arweinwyr gwledig ac entrepreneuriaid y genhedlaeth nesaf

Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig
Menter ar y cyd gyda Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Rhaglen yr Ifanc
Menter ar y cyd gyda CFfl Cymru

Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer Academi Amaeth 2019 wedi dechrau ar 22 Ionawr a bydd yn cau ar 31 Mawrth. Mae'r rhaglen datblygu personol arloesol hon, sydd bellach yn ei seithfed flwyddyn, wedi rhoi hyder, sgiliau a chysylltiadau i dros 200 o gyn aelodau i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gyrfa.

Os ydych chi'n credu bod gennych chi'r awydd, y ffocws a'r brwdfrydedd i elwa o'r rhaglen unigryw hon ar gyfer mentora, hyfforddiant, rhwydweithio lefel uchel wedi'i dargedu a theithiau astudio – a phopeth wedi'i gynnwys o fewn cyfnodau tri diwrnod dwys – **YMGEISIWCH NAWR!**

Am wybodaeth bellach ac i lawrlwytho'r ffurflenni cais ewch i wefan Cyswllt Ffermio:
www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Dyma'r hyn a ddywedodd tri cyn ymgeisydd ynglŷn â'u profiad ar yr Academi Amaeth...

Branwen Miles, Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig 2017



Magwyd Branwen Miles (25) ar fferm laeth organig ei theulu ger Hwlfordd, a bu'n astudio gwleidyddiaeth ryngwladol a Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Branwen bellach yn Swyddog Prosiect yn Sefydliad Perchnogion Tir Ewropeaidd ym Mrwsel.

"Mae'r Academi Amaeth yn rhwydwaith gwych o gefnogaeth, lle mae syniadau a chynghor yn cael eu rhannu'n barod iawn, a lle mae ffrindiau oes yn cael eu gwneud – rydym ni'n dal i ddefnyddio ein grŵp Whatsapp!"

"Pan fo eraill yn rhoi ffydd ynddoch chi, rydych chi'n dechrau credu yn eich gallu eich hun a sylweddoli bod angen i chi fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a ddaw, hyd yn oed os mae hynny'n golygu mynegi eich barn yn onest ar brydiau.

"Roeddwn i'n gwybod fy mod i'n awyddus i weithio ym Mrwsel, ond gyda Brexit, mae'n bosibl na fyddai'r cyfle hwnnw'n digwydd eto. Pan ddaeth y cyfle, rwy'n sicr mai'r hyder a gefais drwy'r Academi Amaeth a wnaeth i mi fanteisio arno!"

Jacob Anthony, Rhaglen Busnes ac Arloesedd 2014

Cafodd y ffermwr pumed genhedlaeth, Jacob Anthony (25), sy'n ffermio ar y fferm deuluol yng Nghwm Risca, Tondur, ger Pen-y-bont, ei enwi yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn y Farmers Weekly yn 2018. Wedi iddo gwblhau cwrs diploma tair blynedd o hyd mewn amaethyddiaeth yng Ngholeg Hartpury College, dychwelodd Jacob i'r fferm deuluol, lle mae wedi cymryd cyfrifoldeb dros y ddiadell o 1,000 o famogiaid Lleyn x Texel.

"Rwy'n credu'n gryf bod angen parhau i ddatblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth gan mai dyna'r unig ffordd y byddwch yn datblygu eich busnes a sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o bobl cyfle i wella perfformiad.

"Rhoddodd fy mhrofiad gyda'r Academi Amaeth hyder sylweddol i mi, ynghyd â sgiliau newydd a rhwydwaith newydd o unigolion o'r un meddylfryd a mentoriaid llawn ysbrydoliaeth.

"Byddem yn cynghori unrhyw un sy'n ystyried ymgeisio ar gyfer yr Academi Amaeth i wneud hynny. Mae wedi bod yn brofiad arbennig i nifer ohonom, sydd wedi cynnig buddion personol ac wedi ein cynorthwyo i ddatblygu ein cymhwysedd busnes yn ogystal."



Fflur Roberts, Rhaglen yr Ifanc 2017



Magwyd Fflur Roberts (18) ar y fferm fynydd deuluol yn Llangadfan. Mae Fflur ar hyn o bryd yn astudio ei blwyddyn olaf ar y Diploma Estynedig Lefel 3 ar gampws Amaethyddol Grŵp NPTC ym Mronlas, Y Drenewydd, ac mae'n gobeithio mynd i'r brifysgol y flwyddyn nesaf.

"Fydden i erioed wedi credu y byddai'r Academi Amaeth wedi bod mor ysbrydoledig a gwerth chweil, na pha mor werthfawr y byddai'r cysylltiadau.

"Cyn ymuno, roedd fy niffyg dealltwriaeth yn cyfyngu ar fy natblygiad, ac roedd fy nyheadau ar gyfer y dyfodol yn gymharol fach, felly byddem yn annog unrhyw un sy'n ystyried ymgeisio i fanteisio ar y cyfle gwych hwn."

"Fe wna i fanteisio ar unrhyw gyfle a ddaw. Rydw i eisiau magu profiad, ac rwy'n awyddus i ddysgu gan eraill. Mae gen i'r meddylfryd iawn erbyn hyn, diolch i'r Academi Amaeth."

Amserlen Digwyddiadau

Gwneud Treth yn Ddigidol	
08/02/19 19:00 - 21:00	GwestTy'n y Cornel, Tal y Llyn, Tywyn LL36 9AJ
08/02/19 19:00 - 21:00	Ffostrasol Arms, Llandysul, Ceredigion SA44 4SY
11/02/19 19:00 - 21:00	Gwesty Lamphey Court, Llandyfai SA71 5NT
11/02/19 19:00 - 21:00	Gwesty'r Elephant and Castle, Y Drenewydd SY16 2BQ
12/02/19 19:00 - 21:00	Glasdir, Plas yn Dre, Llanrwst LL26 0DF
12/02/19 19:00 - 21:00	Hogshead Pub, Great Tredam, Y Fenni NP7 8TA
13/02/19 19:00 - 21:00	Brecon Castle Hotel, Aberhonddu LD3 9BD
14/02/19 9:00 - 17:00	Canolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam LL11 2HS
14/02/19 19:00 - 21:00	Llwyngwair Manor, Trefdraeth, Sir Benfro SA42 0LX
19/02/19 19:00 - 21:00	Gwesty Ruthin Castle Hotel, Stryd y Castell, Rhuthun LL15 2NU
19/02/19 19:00 - 21:00	Clwb Rygbi Llanymddyfri, Llanymddyfri SA20 0BA
19/02/19 19:00 - 21:00	St Mary's Golf Club, Pencoe, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5EA
21/02/19 19:00 - 21:00	Ivy Bush Hotel, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1LG
Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk	

Datblygu'r gadwyn gyflenwi biff	
12/02/19 19:30 - 21:30	Gower Golf Club, Tregŵyr, Abertawe SA4 3HS
Elan Davies - 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk	

Defnydd cyfrifol o feddyginiaethau	
12/02/19 19:30 - 21:00	Holt Lodge, Wrecsam LL13 9SW
Rhys Davies - 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk	

Lleihau Colledion adeg Ŵyna	
12/02/19 19:30 - 21:30	Gwesty Metropole, Llandrindod LDI 5DY
Elan Davies - 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk	

Sioe Deithiol Ffermio Cynaliadwy	
11/02/19 19:30 - 21:30	Theatr Brycheiniog, Aberhonddu LD3 7EW
12/02/19 19:30 - 21:30	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbed SA48 7ED
26/02/19 9:00 - 17:00	Glen yr Afon Hotel, Usk NP15 1SY
28/02/19 19:00 - 21:00	Yr Hen Neuadd Fwyd, Maes Y Sioe Frenhinol LD2 3WY
Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk	
Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y grant, mae'n rhaid i'r busnes sy'n ymgeisio fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio cyn i aelod o'r busnes archebu lle i fynychu digwyddiad Ffermio ar gyfer y Dyfodol a gynhelir gan Cyswllt Ffermio.	

Defnydd cyfrifol o feddyginiaethau	
13/02/19 19:00 - 21:00	Clwb Rygbi Cobra, Meifod SY22 6DA
Lisa Roberts - 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk	

Sut i gynnwys ynni adnewyddadwy ym mhroffidiodleby fferm heb gymorthdaliadau'r Tariff Cyflenwi Trydan	
19/02/19 11:00 - 14:30	Trebared Farm, Aberteifi SA43 1PH
Abby James - 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk	

Cymorthfeydd (09:00 - 17:00)		
Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	06/02/19	Llanrwst
Cymhorthfa Gynllunio	06/02/19	Llanelli
Cymhorthfa TG	12/02/19	Merthyr Tudful
Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	12/02/19	Y Trallwng
Cymhorthfa TG	20/02/19	Y Drenewydd
Cymhorthfa TG	27/02/19	Arberth
Helen Lewis - 01970 631 425 helen.lewis@menterabusnes.co.uk		